



Adolygiad Blynyddol 2018/19







Croeso

Mae Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn darparu ffisiotherapi, therapi galweddiaethol a therapi lleferydd ac iaith i blant ledled Cymru sydd â pharlys yr ymennydd.

Mae therapyddion Bobath yn cydweithio fel tîm i gyfuno'r disgyblaethau hyn i roi'r sgiliau i bob plentyn archwilio eu byd, gyfleu eu hanghenion, gyrraedd eu potensial ac felly gwella ansawdd eu bywyd.

Yng Nghanolfan Therapi Plant Bobath Cymru canolbwyntiwn ar y gallu ac nid yr anabledd.

Neges y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadolygiad blynyddol ar gyfer 2018/19. P'un a ydych wedi ymwneud â'r elusen ers sawl blwyddyn neu eich bod yn darllen y ddogfen hon am y tro cyntaf, rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r trosolwg hwn a'r crynodeb o uchafbwyntiau ein blwyddyn.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein prosiectau strategol mawr, a sbardunwyd gan rodd drawsnewidiol Sefydliad Moondance yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn fwyaf nodedig, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu Cofrestr Parlys yr Ymennydd Cymru ymhellach, ac wedi parhau i ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu ein capasiti, gan gynnwys cwrdd â gofynion o ran ein safleoedd sy'n gyson â'n darpariaeth o wasanaethau wedi'u targedu, wrth fynd i'r afael â'n gweithgareddau cynhyrchu incwm, gyda'r nod o gynnal sefyllfa gadarn o ran ein cronfeydd wrth gefn.

Ar ran yr holl ymddiriedolwyr, hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaethau sy'n newid bywydau y mae Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn eu cynnig. Mae'n fraind fawr gweithio gyda'r elusen hon, a'r unig beth sydd i'w wneud yw diolch o galon i'r staff medrus, y gwirfoddolwyr ymroddedig, y cefnogwyr hael, a'r noddwyr ffyddlon am sicrhau ein bod wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall.

J Frank Holmes

Gwnaethom gynnal cyfanswm o **1682** o sesiynau therapi ledled Cymru,
gan roi triniaeth i **286** o blant unigol.

Rhaglen Dechrau Gwell, sydd wedi bod yn ganolbwynt allweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yw man cychwyn y daith ar gyfer llawer o'n plant, gan roi therapi sy'n newid bywydau iddynt mor fuan â phosibl.



Gwnaethom gynnal ein cwrs cyntaf ar Weithredu yn Gynnar ar gyfer therapyddion sydd am ddysgu mwy am roi cymorth i fabanod risg uchel. Aeth rhai aelodau o'n tîm therapi ar y cwrs, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill o bob cwr o'r DU. Gwnaeth y cwrs redeg am chwe niwrnod a chafodd 12 o fabanod driniaeth.

Cynhaliwyd ein Rhaglen Anturwyr y Jyngl ym mis Chwefror i blant rhwng chwech ac wyth oed sydd â hemiplegia, gan eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau. Dywedodd un fam, "Mae Kitty wedi mwynhau mas draw yn y gwersyll; mae hi wedi magu hyder a datblygu ei nerth a'i gallu."



Mae ein rhestr aros yn parhau i dyfu, gan ddangos yr angen mawr am y gwaith rydym yn ei wneud. Mae hyn wedi bod yn wir ers sawl blwyddyn, ac wedi gwneud i'r Bwrdd a'r uwch-dîm rheoli feddwl yn wahanol am ein gwasanaethau a'r ffordd rydym yn eu darparu.




111 o sesiynau wedi'u cynnal y tu allan i'n canolfan yn y gymuned.



6 o blant rhwng chwech ac wyth oed wedi cymryd rhan yn ein Rhaglen Anturwyr y Jynghl a ariannwyd gan Plant mewn Angen.

3 o ymgynghoriadau ar gysgu wedi'u cynnal gan ein Cydlynnydd Cymorth i Deuluoedd.

110 o gyfarfodydd cymorth i deuluoedd wedi'u cynnal.



15 o therapyddion Bobath wedi'u cyflogi gan Bobath Cymru.

9 o foreau coffi wedi'u cynnal, gan gynnwys un mewn lleoliad rhanbarthol.



600 metr

y pellter lleiaf a deithiwyd gan deulu i'n canolfan i gael therapi.



132 milltir

y pellter mwyaf a deithiwyd gan deulu i'n canolfan i gael therapi.



Y wybodaeth ddiweddaraf am therapi

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn hynod o brysur a chyffrous. Ynghyd â darparu therapi ar gyfer y plant a'r teuluoedd, rydym wedi bod yn datblygu sawl prosiect mawr.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau gwerthfawr, rydym yn datblygu ein gwasanaethau. Rydym wedi dechrau datblygu llwybrau allweddol ar gyfer y gwahanol fathau o barlys yr ymennydd. Y nod yw cyflwyno'r llwybrau hyn ar adegau pontio pwysig, fel dechrau'r ysgol, symud i ysgol addysg uwchradd, blynyddoedd yr arddegau ac ati. Un enghraifft lle mae'r llwybrau hyn eisoes wedi cael eu cyflwyno yw ein Rhaglen Fforwyr y Jyngl a'n Rhaglen Anturwyr y Jyngl ar gyfer plant sydd â math unochrog o barlys yr ymennydd. Mae'r rhain wedi bod yn llawer o hwyl i bawb a gymerodd ran, gan gynnig manteision amlwg i'r plant, o ran sgiliau corfforol a hyder. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, rydym wedi bod yn ystyried a yw enw'r Ganolfan yn parhau i adlewyrchu'n llawn yr amrywiaeth o wasanaethau arbenigol rydym yn eu cynnig. Byddwn yn parhau i ystyried y mater hwn.

Erbyn hyn, mae gennym 14 o wahanol fodelau gwasanaeth. Caiff tua thraean o'n gwasanaeth ei ddarparu'n lleol ar y cyd â therapyddion lleol. Mae hyn yn rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau y mae teuluoedd a thimau lleol yn dymuno eu cael. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19, gwnaethom gynnal 111 o sesiynau therapi yn y gymuned. Bydd hyn yn codi y flwyddyn nesaf.

🏠 Cartref newydd i Bobath Cymru

Ar hyn o bryd, ni allwn gynnig yr holl wasanaethau yr hoffem am fod prinder lle. Defnyddir ystafelloedd triniaeth ar gyfer sesiynau Cymorth i Deuluoedd, cyfarfodydd a chyrsiau yn ogystal â therapi. Felly, rydym yn ystyried ffyrdd o gynyddu faint o le sydd gennym yn y dyfodol agos. Ein hoff opsiwn yw symud i leoliad mwy er mwyn creu canolfan blant fodern sy'n addas at y diben. Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i leoliadau a chyllid posibl, gyda'r rhodd a gawsom gan Sefydliad Moondance yn 2017 yn sbardun.

Cofrestr Parlys yr Ymennydd i Gymru

Prosiect amlasiantaeth Cymru gyfan yw hwn, dan arweiniad Jennifer Carroll, sef Cyfarwyddwr y Ganolfan, a Dr Rachel Lindoewood, sy'n Bediatregydd Ymgynghorol o Bowys. Mae grŵp llywio gennym sy'n cynnwys 32 o bobl, gan gynnwys unigolion sydd â pharlys yr ymennydd a'u teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol mewn 16 o ddisgyblaethau gwahanol. Mae gan y prosiect hwn y potensial i newid bywydau teuluoedd sy'n byw â pharlys yr ymennydd yng Nghymru.



@CP_Reg_Wales



Arweinwyr Parlys yr Ymennydd

Mae'r grŵp hwn yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n strategaeth i gefnogi gwasanaethau ledled Cymru ar gyfer plant sydd â pharlys yr ymennydd. Mae clinigwyr arweiniol ar gyfer parlys yr ymennydd o bob Bwrdd Iechyd Lleol yn mynychu'r diwrnodau arweinyddiaeth glinigol hyn, a'n nod yw eu cefnogi wrth iddynt arwain rhagoriaeth glinigol yn lleol.

Arwain y ffordd o ran addysg

Eleni, gwnaethom gynnal cwrs rhagarweiniol a chwrs cynorthwywyr yn ein Canolfan Therapi yng Nghaerdydd a chawsant eu croesawu. Rydym wedi mynd yn ôl i fodel cwrs rhagarweiniol sy'n para am dridiau, sy'n rhoi ychydig mwy o amser i ni drafod a chynnwys mwy o wybodaeth ar gyfer y cyfranogwyr. Gwnaeth ein Canolfan Therapi hefyd gynnal cwrs Gweithredu yn Gynnar, yn ogystal â chwrs bach Asesu'r Llaw Gynorthwyol a chwrs Proffil Echddygol Babanod. Rydym yn bwriadu darparu mwy o gyrsiau unwaith y bydd mwy o le gennym yn y dyfodol.

Cyngres EBTA 2018

Cynhaliwyd cyngres Cymdeithas Tiwtoriaid Bobath Ewrop (EBTA) yn Brighton yn 2018. Gwnaeth Bobath Cymru chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o gynllunio, trefnu a chynnal y gyngres hon, a oedd yn llwyddiant mawr. Gwnaeth ein tîm therapi gyflwyno dwy ddarlith a saith o bosteri academiaidd.

"Rydym yn gweithio tuag at flwyddyn lwyddiannus y flwyddyn nesaf, ac yn diolch i'r holl therapyddion cymunedol am y cymorth aruthrol rydym yn ei gael.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r teuluoedd a thîm staff Bobath Cymru am y gefnogaeth ryfeddol y mae'r Ganolfan yn ei chael."



Jennifer J Carroll MA MCSP PGC(HE)
Cyfarwyddwr y Ganolfan a Ffisiotherapydd
Ymgynghorol





Gwnaeth **1179** o unigolion a sefydliadau ein helpu i godi arian.



Gwnaeth **925** o bobl rodd i Bobath Cymru (rhoddion untro a rhai misol).



Gwnaeth yr arwerthiant dillad 'Labeli Dylunwyr a Dillad Newydd' godi **£4,462** mewn dim ond wyth awr.



Gwnaeth **53** o wirfoddolwyr newydd gofrestru i'n helpu yn ein pum siop elusen.



Albwm lluniau
gweithgareddau codi arian
2018-19

Ciplun ar ein blwyddyn!



Diolch i chi am eich grant o £5,703 tuag at ein Gwasanaeth Gweithredu yn Gynnar.



Aeth **12** o bobl ar ein Taith Eira i Sweden gan godi **£15,944**.



Cafodd **MILOEDD** o gacennau eu pobi a'u bwyta yn ystod digwyddiad Pobi dros Bobath.



Cwblhaodd **11** o ddynion ifanc her Tri Chopa Cymru, gan godi **£3,914**.



Ymwelodd aelodau o'r tîm codi arian a'r tîm therapi â Phalas San Steffan er mwyn codi ymwybyddiaeth o Bobath Cymru.

Diolch yn fawr!

i bawb a'n cefnogodd yn ystod 2018-19. Hebdoch chi, ni fyddem wedi gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gynnifer o blant a theuluoedd sy'n byw â pharlys yr ymennydd!



Gwnaeth Hwyl yr Ŵyl yn Pugh's Garden Village godi **£12,000**.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Godi Arian

Mae pob rhodd i Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd sy'n byw â pharlys yr ymennydd ledled Cymru. Felly, rydym am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi ein cefnogi yn 2018/19. **Ni fyddem yn gallu gwneud yr hyn rydym yn ei wneud hebdoch!**

Fel y gwelwch o'n cyfrifon, yn y flwyddyn ariannol hon, **daeth 79% o'n hincwm o roddion, cymynroddion, manwerthu a gweithgareddau codi arian.** Mae hefyd yn bwysig dathlu'r ffaith anhygoel bod traean o'r swm hwnnw wedi dod o **roddion a phobl yn prynu nwyddau ail-law** yn ein pum siop elusen ledled De Cymru.

Er ein bod yn ddiolchgar am bob rhodd, mae'n rhaid i ni sôn yn arbennig y tro hwn am y diweddar Ms Valerie Seaward, a adawodd swm sylweddol i'r elusen yn ei hewyllys. Drwy wneud y rhodd hwn, mae Valerie Seaward wedi ei gwneud yn bosibl i ni ddarparu **therapi sy'n newid bywydau** i lawer o blant eleni.

Wrth i chi ddarllen yr Adolygiad Blynnyddol hwn, rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo'n hyderus ac yn falch, p'un a ydych wedi rhoi nwyddau i'n siopau, rhoi arian, dod i ddigwyddiad neu wirfoddoli gyda ni, fod eich amser, arbenigedd a charedigrwydd wedi helpu i **wneud gwahaniaeth** i blant a theuluoedd sy'n byw â pharlys yr ymennydd yng Nghymru.

Diolch yn fawr,

Rachel Morgan


Pennaeth Cynhyrchu Incwm



Adroddiad Ariannol


Cyfanswm Incwm **£1,516,733**

- Incwm codi arian **£639,492**
- Manwerthu **£555,621**
- Byrddau Iechyd **£313,922**
- Eraill **£7,698**



Cyfanswm Gwariant **£1,541,514**

- Darparu therapi **£818,852**
- Manwerthu **£336,836**
- Codi arian **£201,915**
- Gweinyddol ac arall **£183,911**



Yng Nghanolfan Therapi Plant Bobath Cymru, rydym wedi ymrwymo i ddarparu pob gwasanaeth am ddim i bob teulu sydd angen ein cymorth. Er mwyn parhau i wneud hyn, mae'n bwysig bod ein hincwm yn deillio o ffynonellau amrywiol er mwyn lleihau risgiau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hincwm wedi dod o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae gennym bum siop elusen ar draws De Cymru. Mae ein hincwm manwerthu'n parhau i dyfu ac erbyn hyn mae'n cyfrannu mwy na thraean o gyfanswm ein hincwm. Mae ein contractau â holl Fyrddau Iechyd GIG Cymru yn ariannu llawer o'n plant o tua 4 oed, tra caiff triniaeth y babanod rydym yn eu gweld ei hariannu drwy'r ffynonellau eraill.

Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl ffyrdd niferus (a dyfeisgar!) y mae ein cefnogwyr yn mynd ati i godi arian, ac rydym yn gweithio'n galed er mwyn gwneud yn siŵr y caiff pob punt ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau sy'n newid bywydau i blant ledled Cymru.

Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru

19 Heol y Parc, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 7BP
Ffôn: 02920 522 600
Ffacs: 02920 521 477
E-bost: info@bobathwales.org

www.bobathwales.org

Gallwch ddod o hyd i ni ar



Elusen Gofrestredig: 1010183
Rhif Cwmni Cyfyngedig: 02691690

Ymddiriedolwyr

Frank Holmes
Christine Barber
Caroline Cooksley
Ieuan Coombes
Martin Gush
Stephen Jones
Paul Lubas
Cathy White
Marie Wood

Archwilwyr

Clifton House Partnership,
Clifton House, Four Elms Road,
Caerdydd, CF24 1LE

Bancwyr

Barclays Bank plc, Heol Dewi Sant,
Caerdydd, CF10 2DP

